




Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cynnwys


- 3 Amdanom ni
- 5 Datganiad y Cadeirydd
- 6 Ein Pobl
- 7 Ein Cymdeithion
- 8 Adolygiad o'r flwyddyn
- 14 Datganiadau ariannol
- 15 Y flwyddyn i ddod



Amdanom ni

Cenhadaeth yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (yr Academi Arweinyddiaeth) yw “Ysbrydoli Arweinwyr: Cyfoethogi Bywydau” gyda’r nod o sicrhau eglurder a chydlynid i arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru. Drwy ein gwaith, byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu ymgysylltu gyda’r dysgu proffesiynol mwyaf perthnasol, ystyrlon ac ysbrydoledig.

Mae’r Academi Arweinyddiaeth wedi’i seilio ar weledigaeth gref, ac mae cyfres o werthoedd ac egwyddorion craidd yn sail iddi sydd wedi’u datblygu ar y cyd gan y sector. Wrth wraidd y weledigaeth hon, y mae ymrwymiad i sicrhau bod gan bob arweinydd yn y system addysg fynediad i gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon uchel sy’n diwallu eu hanghenion lle bynnag y maent, a waeth pa gam y maen nhw yn eu gyrfa a’u huchelgeisiau. Rydym yn canolbwyntio ar alluogi arweinyddiaeth dysgu ac rydym yn dangos hyn drwy ymgorffori ein gwerthoedd ym mhopeth a wnawn.



Mae tîm yr Academi Arweinyddiaeth a'r Cymdeithion wedi parhau i weithio'n ddiflino i gefnogi'r arweinwyr yn y system, ac mae'r ffocws ar les yn elfen gyson wedi'i hymgorffori yn eu gwaith.



Datganiad y Cadeirydd



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn o'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, er yn erbyn cefndir o

newid sylweddol yn ein system addysg drawsnewidiol ac yn y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn byw mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19 presennol.

Yn ystod ei ail flwyddyn o weithgaredd, mae'r tîm staff wedi cynyddu gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi, Ymchwil a Datblygu Strategol, Dr Chris Lewis, ac rydym yn croesawu ei fewnbwn ers ymuno â'r tîm ym mis Mehefin 2019. Penodwyd Mrs Tegwen Ellis yn Brif Weithredwr y sefydliad o 1 Ebrill 2020 ar yr adeg ddigynsail hon, ac rwy'n dra-ddiolchgar iddi am ei hymrwymiad a'i gweledigaeth ddiwyro ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth. Mae Tegwen a'r tîm bach o staff yn parhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn a osodwyd gan y Prif Weithredwr blaenorol, Mr Huw Foster Evans.

Yn ystod yr ail flwyddyn hon o fusnes, mae'n galonogol bod yr Academi Arweinyddiaeth wedi gweld cynnydd yn y ddarpariaeth a gyflwynwyd i'w chymeradwyo. Mae'r rhaglen gymeradwyo drwyadl sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau safonau ansawdd, ac mae'r sefydliad wedi cynyddu'r cyllid i gefnogi ei Lwybr Arloesi, gan sicrhau model cynaliadwy sy'n ymgorffori cylch gweithredu ac adolygu. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn falch bod y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams yn parhau i gefnogi'r rôl hanfodol y mae'r Academi Arweinyddiaeth yn ei chwarae yn ei weledigaeth i sicrhau, meithrin ac ysbrydoli rolau arwain yn System Addysg Cymru wrth gynnal ymrwymiad ar y cyd i ddiwylliant o safonau uchel.

Mae'r tîm staff bach wedi parhau i weithio'n ddiflino i gefnogi'r arweinwyr yn y system, ac mae'r ffocws ar les yn elfen gyson wedi'i hymgorffori yn eu gwaith. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i holl Gymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth sydd wedi cefnogi gweledigaeth yr Academi Arweinyddiaeth yn ddiflino ac yn anhunanol wrth adeiladu gallu yn y system ac ysbrydoli arweinwyr y dyfodol. Mae eu hymrwymiad yn dangos cryfder yn eu rôl wrth ddatblygu fel arweinwyr system. Gyda'r

ymrwymiad hwn a rôl hanfodol y Rhanddeiliaid, mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi datblygu'r weledigaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol ymhellach, a chydabyddir bod ganddi droedle cryf yn yr Haen Ganol. Mae'r angen i feddwl a chynllunio'n greadigol wedi bod gyfystyr ag ymateb i'r cwrwclwm cyfnewidiol, ac mae arweinyddiaeth gadarn yn y system yn parhau i fod yn ffactor allweddol wrth addasu i heriau newydd. Y Cymdeithion sy'n parhau i roi llais ymarfer dilys, ac yn galluogi'r Academi Arweinyddiaeth i weithredu'n effeithiol yn y rhyngwyneb rhwng polisi ac ymarfer.

Nod blaenoriaethau strategol yr Academi Arweinyddiaeth yw sicrhau dysgu proffesiynol arweinyddiaeth hygyrch i bob arweinydd system. Mae'r Academi yn ddiolchgar i'r darparwyr sy'n ymgysylltu'n llawn â ni yn y gwaith partneriaeth hwn - mae'r rhain yn cynnwys ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac uwch, a darparwyr sector preifat. Fel rhan o Gonsortium Tair Gwlad, mae'r Academi Arweinyddiaeth yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Alban ac Iwerddon, ac yn elwa o rannu profiadau. Wrth inni wynebu heriau pellach, rhaid inni gofreiddio ffyrdd newydd o ddysgu - mae gwneud i hyn ddigwydd yn her fawr i'r arweinwyr. Bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn parhau i gyfrannu at ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr ledled system addysg Cymru, gan fynegi a gweithredu gweledigaeth ar gyfer arweinyddiaeth yn y system honno wrth gofio am arfer gorau gartref ac mewn maes rhyngwladol.

O'm rhan i, mae wedi bod yn anrhydedd ac yn fraint cael bod yn rhan o daith yr Academi Arweinyddiaeth ers ei sefydlu. Rwy'n ddiolchgar i'r tîm bach o staff sy'n cadw ffocws ar gyfleu a gweithredu gweledigaeth y sefydliad trwy adeiladu gallu o fewn y system addysg o ran cyfrannu at ddatblygiad arweinwyr proffesiynol. Ynghyd â Chymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth, maent wedi arloesi, braearu tir newydd, wedi parhau i fod yn egniol, yn gadarnhaol, yn ymroddedig, yn greadigol ac yn hael yn eu cefnogaeth i ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr yn y system.

Ein Pobl

Dan arweiniad y Prif Weithredwr, mae gan yr Academi Arweinyddiaeth dîm gweithredol bach sy’n gyfrifol am ddilyn y tri maes blaenoriaeth a nodir yn ein llythyr cylch gwaith. Mae proffiliau llawn yr aelodau staff i’w gweld ar y [wefan](#).

Mae Bwrdd yr Academi Arweinyddiaeth yn goruchwyllo cyfeiriad strategol y sefydliad ac mae’n cynnwys unigolion sydd â phrofiad helaeth ac amrywiol yn y maes addysg a thu hwnt iddo. Mae manylion llawn aelodau presennol y bwrdd i’w gweld ar y [wefan](#).

Mae’r Academi Arweinyddiaeth yn penodi carfan flynyddol o Gymdeithion, a phob un ohonynt yn uwch arweinwyr addysgol cyfredol, ac mae pob un yn cydweithio’n ffurfiol â ni am gyfnod o dair blynedd. Mae’r Cymdeithion yn rhoi cyfle i’r Academi Arweinyddiaeth gael mynediad i’w harbenigedd a’u gwybodaeth fel arweinwyr addysgol cyfredol sy’n sicrhau bod llais y proffesiwn yn cael ei glywed yn ein holl waith cynllunio, ein gweithgarwch a’n myfyrion. Mae’r Cymdeithion yn cynrychioli amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru yn cynnwys ysgolion ffydd, cyfrwng Cymraeg, bach, gwledig ac ysgolion wedi’i ffedereiddio. Mae manylion llawn y Cymdeithion presennol i’w gweld ar y [wefan](#).

Mae’r Academi Arweinyddiaeth yn gallu cael mynediad i syniadau, cymorth a deialog o’r system addysg yn ei chyfanrwydd hefyd drwy ei grŵp rhanddeiliaid. Mae aelodau’r grŵp yn helpu’r sefydliad i:

- Ddylanwadu ar syniadau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol
- Cefnogi a herio gwaith yr Academi Arweinyddiaeth – gan wella prosesau cymeradwyo, gwneud awgrymiadau ar gyfer gwaith ymchwil a chomisiynu
- Sicrhau bod arweinwyr ar draws y sectorau addysg yn teimlo bod yr Academi Arweinyddiaeth yn eu cynrychioli, a’i bod yn eiddo iddyn nhw

Ein Cymdeithion

CARFAN 1

- Christine Jackson**
Ysgol Gynradd Glasllwch, Casnewydd, NP20 3RH
- Jeremy Griffiths**
Ysgol Gynradd Gwynedd, Flint, CH6 5DL
- Sue Roberts**
Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno, LL30 2LZ
- Clive Williams**
Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Aberystwyth, SY23 1HL
- Jan Waldron**
Ysgol Calon Cymru, Powys, LD2 3BW
- Karen Lawrence**
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfaes, Powys, LD3 8EB
- Janet Hayward**
Ysgolion Cynradd Cadoxton a Oak Field, Barri, CF63 2JS
- Emma Coates**
Ysgol Gynradd Llanhari, Pontyclun, CF72 9LQ
- Huw Powell**
Ysgol Uwchradd Mary Immaculate, Cardiff CF5 5QZ

CARFAN 2


- Trefor Jones**
Ysgol y Creuddyn, Llandudno, LL30 3LB
- Tania Rickard**
Ysgol T. Gwynn Jones, Bae Colwyn, LL29 9UA
- Richard Monteiro**
Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor, Sir Ddinbych, LL16 4EY
- Ian Gerrard**
Ysgol Aberconwy, Conwy, LL32 8ED
- Damien Beech**
Pennaeth yr Tîm Cyfnod Cynradd, Abertawe
- Roger Guy**
Ysgol Gynradd Gilwern, Y Fenni, NP7 0AY
- Paul Keane**
Ffederasiwn Ysgolion Cymuned Blenheim Road ac Ysgol Gynradd Coed Eva, Cwmbrân, NP44 4SZ
- Karen Watham**
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Merthyr Tydfil CF47 8HA
- Llew Davies**
Ysgol Cae Top, Bangor, LL57 2GZ

- Sarah Coombes**
Ysgol Gynradd Llanishen Fach, Caerdydd, CF14 6SS
- Kelvin Law**
Ysgol Gynradd Romilly, Barri, CF62 6LF
- Suzanne Sarjeant**
Ysgol Gynradd Pencoed, Pen-y-Bont, CF35 6RH

CARFAN 3

- Catrin Thomas**
Ysgol Gynradd Aberaeron, Aberaeron, SA46 0BQ
- Simon Roberts**
Ysgol Gynradd ac Uned Anghenion Arbennig Maesybryn, Pontypridd, CF38 2NS
- Alison Ellis**
Ysgol Gynradd Maesyrhandir, Y Drenewydd, SY16 1LQ

- Kerina Hanson**
Ysgol Gynradd Pennard, Abertawe, SA3 2AD
- Justine Baldwin**
Ysgol Gynradd Trallwng, Y Trallwng, SY21 7EJ
- Sharon Hope**
Ysgol Gynradd Clase, Abertawe, SA6 7JX
- Joe Cudd**
Ysgol Pen Rhos, Llanelli, SA15 2NG
- Olwen Corben**
Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Ceiriog, Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Ysgol Cynddelw, Llangollen, LL20 7LB
- Marc Jones**
Ysgol Pen Barras, Ruthin, LL15 1QQ
- Dr Llinos Jones**
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Caerfyrddin, SA32 8DN



Adolygiad o'r flwyddyn

5

Cymeradwyo o ddarpariaethau datblygu arweinyddiaeth



950

o arweinwyr ledled Cymru wedi cael mynediad i ddarpariaeth a gymeradwywyd




17

Ariannu o Brosiectau Arloesi



4

Uwch-gynhadledd gyntaf Consortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad gyda chynrychiolwyr o Education Scotland a'r Centre for School Leadership Ireland



2

symposiwm rhyngwladol i gyflwyno canfyddiadau carfan 1 o'u hymweliad rhyngwladol â'r Ffindir a Toronto, Canada



10


Recriwtio o benaethiaid newydd ar gyfer carfan 3 i gynrychioli amrywiaeth ehangach o safleoedd, lleoliadau, awdurdodau lleol ac iaith



Cymdeithion carfan 2 yn lansio cwestiwn eu comisiwn
'Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?'



Carfan 2 yn teithio i Ottawa, Canada a Gwlad y Basg ar gyfer eu hymweliadau rhyngwladol



Lansio prosiect
Ymholi, Arloesi, Archwilio!

gyda 12 o ysgolion ledled Cymru a ariannwyd er mwyn ymchwilio i arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar ymholi

Cynhaliwyd y Gynhadledd Arweinyddiaeth Genedlaethol gyntaf yn Stadiwm Caerdydd gyda

100 a mwy o
fynychwyr



Cymdeithion

Llwyddwyd i benodi ail garfan o benaethiaid profiadol ac o safon uchel ar 1 Ebrill 2019 i rôl Cydymaith yr Academi Arweinyddiaeth. Eu rôl yw meithrin capasiti'r Academi Arweinyddiaeth wrth hyrwyddo ei ddiben a gwireddu ei uchelgais i gefnogi a datblygu'r holl arweinwyr ar draws y sectorau addysg. Mae'r 12 Cydymaith yn cynrychioli'r sector Cynradd ac Uwchradd, cyfrwng Gymraeg a Saesneg, ac yn cynrychioli cwmpas daearyddol da ledled Cymru gyda Chymdeithion ym mhob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol.

Cychwynnodd y Cymdeithion y flwyddyn gyda swper yng nghwmni Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg a swyddogion Llywodraeth Cymru, Mr Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Dr Kevin Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol. Roedd y sesiwn sefydlu ar gyfer rôl y Cydymaith yn cynnwys pedwar o brofiadau dysgu preswyl a hwyluswyd gan Gymdeithion Carfan 1, seminarau gyda Lucy Crehan, (awdur *Clever Lands*), Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, Steve Davies, Llywodraeth Cymru a'r Athro Mick Waters. Rhoddwyd comisiwn i'r 12 Cydymaith dan y teitl *'Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?'* Fel rhan o'r comisiwn, aeth y Cymdeithion ati i gasglu tystiolaeth yng Nghymru, craffu ar ddeunydd darllen yn ogystal ag ymweld â Gwlad y Basg ac Ottawa, Canada i gasglu tystiolaeth sylfaenol o systemau addysgol dwyieithog. Bydd adroddiad o ganfyddiadau'r comisiwn hwn yn cael ei lansio yn 2021.

Mae Carfan 1 y Cymdeithion wedi llwyddo i rannu canfyddiadau eu comisiwn *'Ein Galwad i Weithredu'* drwy gyfres o Sioeau Teithiol ledled Cymru lle gwahoddwyd arweinwyr ysgolion i gyfrannu eu syniadau ar sut y gellir bwrw ymlaen â'r argymhellion. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o symposia Rhyngwladol ar gyfer yr holl addysgwyr, yn cynnwys arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr ac aelodau o'r haen ganol. Yn ystod y digwyddiadau hyn, aeth y Cymdeithion ati i rannu eu canfyddiadau o ymweliadau rhyngwladol â'r Ffindir a Toronto, Canada ar themâu lles a dysgu proffesiynol.

Mae Cymdeithion o Garfan 1 a Charfan 2 wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol pellach drwy fynychu digwyddiadau gyda siaradwyr rhyngwladol. Mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg, cynhaliodd yr Academi Arweinyddiaeth ddosbarth meistr gyda'r Athro Cyswllt Pak Tee Ng, o'r National Institute of Education, Singapore a digwyddiad ar y cyd â Phrifysgol Abertawe gyda'r Athro Andy Hargreaves, athro gwadd ym Mhrifysgol Ottawa.

Cymeradwyo

Yn dilyn llwyddiant y broses gymeradwyo yn y flwyddyn gyntaf, fe wnaeth yr Academi Arweinyddiaeth alwadau pellach am amrywiaeth ehangach o gamau gyrfa gael eu cynnwys. Roedd y drydedd alwad i sicrhau bod dau faes o ddarpariaeth arweinyddiaeth yn cael eu cynnwys sef Arweinwyr Canol a Darpar Benaethiaid. Llwyddodd tair darpariaeth ar gyfer Arweinwyr Canol i gael cymeradwyaeth ac roeddent yn cynnwys darpariaeth a ddatblygwyd gan y Consortia Rhanbarthol, mewn partneriaeth gyda Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor, Portal, darparwr preifat, sy'n darparu darpariaeth arweinyddiaeth ar-lein a rhwydwaith o ysgolion yn y Gogledd. Fe wnaeth y Consortia Rhanbarthol, mewn partneriaeth gyda Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Bangor gymeradwyo a datblygu un ddarpariaeth ar gyfer Darpar Benaethiaid hefyd. Ni chafodd ein pedwaredd alwad, a oedd yn cynnwys darpariaeth Uwch Arweinyddiaeth, unrhyw ymateb a chafodd y bumed alwad am Arweinyddiaeth Athrawon ei hoedi oherwydd COVID-19, y pandemig bydeang a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol.

Roedd aelodau o banel y broses Gymeradwyo yn cynnwys Cymdeithion o garfan 1 a 2 ac aelodau'r grŵp rhanddeiliaid. Cafodd rhan un ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd a chadeirydd cam dau oedd y Prif Weithredwr. Darperir hyfforddiant ar gyfer y ddau gam ar gyfer yr holl banelwyr a chynhelir gwerthusiadau o'r hyfforddiant a'r broses fel rhan o adolygiad blynyddol. Cydweithwyr Education Scotland a'r Centre for School Leadership Ireland sy'n sicrhau ansawdd y proses fel rhan o Gonsortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad.

Arloesi

Yn dilyn lansio'r Llwybr Arloesi, mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi ariannu prosiectau amrywiol gyda'r nod o ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel. Roedd y ceisiadau Llwybr arloesi yn amodol ar fodloni tair cyfres gyntaf y meini prawf fel y nodir ar gyfer cymeradwyo. Roedd y ddarpariaeth ym mhob achos yn newydd ac ar adeg y cais nid oedd wedi'i darparu i gyfranogwyr, fodd bynnag, y gobaith yw unwaith y mae cylch cyntaf y ddarpariaeth wedi'i gynnal ac mae'r darparwyr yn gallu gwerthuso ei effaith, ac felly bodloni'r pedwerydd maen prawf, bydd yn cael e roi gerbron i'w Gymeradwyo.

Mae'r darparwyr sydd wedi cael cyllid eleni yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Consortia Rhanbarthol, Sefydliadau Addysg Uwch, rhwydweithiau o ysgolion cyfrwng Gymraeg a Saesneg, ysgolion arbennig, y gwasanaeth lleuencid, a darparwyr preifat. Mae'r ddarpariaeth a ddatblygwyd yn cwmpasu camau gyrfa ar gyfer er enghraifft uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ogystal â dulliau thematig eraill o ran datblygu arweinyddiaeth fel arweinyddiaeth Gymraeg, arweinyddiaeth cynllunio'r Cwricwlwm a lles ar gyfer arweinwyr.



**Rwy'n teimlo
fy mod wedi tyfu
fel unigolyn ac wedi
dechrau dod yn fwy
hyderus.**

Cydymaith yr Academi
Arweinyddiaeth

COVID-19

Ddydd Gwener 20 Mawrth 2020, fe wnaeth ysgolion gau ar gyfer addysg ac fe wnaeth addysg symud ar-lein i blant a phobl ifanc. Roedd hyn oherwydd y pandemig byd-eang a elwir yn coronafeirws (COVID-19). Yn dilyn cynnydd yn nifer y marwolaethau oherwydd y feirws a'r cynnydd dramatig mewn achosion, cafodd Cymru ei rhoi dan gyfyngiadau symud cenedlaethol. Fe wnaeth staff yr Academi Arweinyddiaeth gynnal busnes yr Academi drwy weithio gartref yn ystod y cyfnod hwn.

Unwaith yr oedd ysgolion wedi cau, cafodd hyn effaith ar waith yr Academi Arweinyddiaeth ac arweiniodd at oedi digwyddiadau a ffrydiau gwaith amrywiol. Cafodd pob digwyddiad a gweithgaredd wyneb yn wyneb ei ganslo gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer paneli cymeradwyo a chyfleoedd dysgu proffesiynol fel seminarau. Cafodd galwad pump y broses gymeradwyo ar gyfer Arweinyddiaeth Athrawon ei hoedi ynghyd a phroses ymgeisio am gyllid y Llwybr Arloesi. Cafodd y gweithgareddau ymholi ysgolion a ariannwyd gan yr Academi Arweinyddiaeth eu hoedi ynghyd a phrosiect ymchwil mewn ysgolion sy'n llywio Canllawiau Arweinyddiaeth Dysgu Proffesiynol.

Partneriaethau rhyngwladol

Consortiwm arweinyddiaeth y Tair Gwlad

Eleni, gwelwyd datblygiad pellach yn y berthynas â Chonsortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad gyda'n cydweithwyr o Education Scotland a'r Centre for School Leadership yn Iwerddon.

Mae'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer Cymeradwyo wedi cael ei chryfhau drwy fodel adolygu cymheiriaid. Mynychodd cynrychiolwyr o'r Alban ac Iwerddon Gam dau y broses panel fel sylwebyddion gan roi adborth ar weinyddiaeth y broses dau gam yn ogystal â'r panel cyfworld wyneb yn wyneb. Roeddent yn bresennol hefyd mewn digwyddiad darpariaeth wedi'i chymeradwyo gan siarad â chyfranogwyr a hwyluswyr. Fe wnaeth yr adborth hwn lywio ein proses werthuso a llywio newidiadau i'r broses ar gyfer cylch nesaf y broses Gymeradwyo.

Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliwyd Symposium Arweinwyr Canol yn Maynooth, Iwerddon gyda Christine Forde, Athro Emeritws, Prifysgol Glasgow, yn arwain trafodaethau ar y nodweddion sy'n debyg yn y strwythur arweinwyr canol yn y tair gwlad a'r gwahaniaethau. Roedd yn gyfle pellach i gydweithio â Chonsortiwm Arweinyddiaeth y Tair Gwlad ac roedd tri Chydymaith o'r Academi Arweinyddiaeth yn bresennol ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd. Cafodd y ddirprwyaeth o Gymru a'r Alban gyflwyniad gan Tomás Ó Ruairc o An Chomhairle Mhúinteoireachta - y Cyngor Addysgu a gadarnhaodd bwysigrwydd arweinwyr canol a'u rôl yn hyrwyddo ymarfer cydweithredol.

Atlantic Rim Collaboratory (ARC)

Roedd yr Academi Arweinyddiaeth yn falch o gyflwyno ac arddangos rôl Cymdeithion yn Uwch Gynhadledd Prosiect Addysg ARC 2019 yng Nghaerdydd. Roedd yr uwch-gynhadledd yn cynnwys mynychwyr rhyngwladol o wyth system addysg (Cymru, y Ffindir, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Nova Scotia, Saskatchewan, yr Alban ac Uruguay) yn ogystal â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), yr International Confederation of Principals (ICP), ac Education International (EI).

Casglu gwybodaeth ryngwladol ar gyfer gwaith comisiwn

'Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?'

Fel rhan o gomisiwn carfan 2, aeth y Cymdeithion ati i gasglu tystiolaeth mewn dwy wlad y nodwyd bod ganddynt bolisiau cryf ar waith ar gyfer darparu cwricwlwm dwyieithog; Gwlad y Basg dan arweiniad Jasone Aldekoa o'r ganolfan arloesi addysgol dan Adran Addysg Gwlad y Basg ac yn ail Ottawa, Canada dan arweiniad yr Athro Richard Barewell, athro llawn a Deon Cyfadran Addysg Prifysgol Ottawa. Cafodd y Cymdeithion eu rhannu'n ddau grŵp gyda chwech o Gymdeithion yn ymweld â phob gwlad. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y ddirprwyaeth o Gymdeithion gyfarfod â llunwyr polisiau ac ymarferwyr yn ogystal â chael ymweld â phrifysgolion, ysgolion a digwyddiadau diwylliannol lleol. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arsylwadau yn llywio canlyniadau y cwestiwn comisiwn uchod a bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2021.



Gwaith comisiwn

Ar ôl lansio adroddiad comisiwn cyntaf yr Academi Arweinyddiaeth, ‘Ein Galwad i Weithredu’, ym mis Mawrth 2018, mae’r garfan cyntaf o Gymdeithion wedi bod yn monitro (ac yn ceisio dylanwadu ar) newidiadau mewn meysydd allweddol o ran polisi ac ymarfer. Fe wnaeth yr adroddiad bedwar argymhelliad wrth ateb y cwestiwn: ‘Sut gall arweinwyr alluogi cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy’n gwella lles a chyflawni deilliannau gwell i bawb?’

Mae adolygiad terfynol o gynnydd yn erbyn pob argymhelliad, a fydd yn helpu hefyd i osod y cyfeiriad ar gyfer gwaith yr Academi Arweinyddiaeth yn y dyfodol yn y meysydd hyn, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Bydd *Passing the Baton* yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020.

Mae’r ail garfan o Gymdeithion wedi cychwyn gwaith ar ymholiad uchelgeisiol yn canolbwyntio ar faterion pwysig yn ymwneud â pholisi ac ymarfer ym maes Cymraeg mewn addysg. Y cwestiwn y mae’r Cymdeithion wedi penderfynu arno ar gyfer yr ail gomisiwn hwn gan yr Academi Arweinyddiaeth yw: *‘Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?’*

Mae’r Cymdeithion wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddeunydd darllen ac maen nhw wedi cynnal cyfres o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gydag arweinwyr, llunwyr polisi ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill yn y maes diwylliant ac iaith ledled Cymru. Aethant ar ymweliadau â Gwlad y Basg ac Ottawa, Canada, ym mis Ionawr 2020, ac arweiniodd hwn at helpu’r Cymdeithion i roi’r dystiolaeth a ddaeth i’r amlwg yng Nghymru mewn cyd-destun cymharol rhyngwladol hanfodol. Bydd y Cymdeithion yn adrodd eu canfyddiadau yn ddiweddarach yn 2020.

Ymholi, arloesi, archwilio!

Ym mis Rhagfyr 2019, fe wnaeth yr Academi Arweinyddiaeth lansio menter gyffrous i gefnogi arweinyddiaeth ymholi mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd *Ymholi, arloesi, archwilio!* yn cynorthwyo arweinwyr ysgol i:

- Sefydlu diwylliant ysgol gyfan o ran ymholi, arloesi ac archwilio
- Ddatblygu dulliau gweithredu’n seiliedig ar ymchwil ac ymholi i fynd i’r afael ag anghenion a gofnodwyd ar gyfer datblygu eu hysgolion

Dyfarnwyd grantiau i 13 o arweinwyr ysgol. Ym mis Chwefror 2020, sefydlwyd partneriaethau rhwng pob deilydd grant a chynghorwyr prifysgol ac fe gychwynwyd ar y prosiectau ym mis Mawrth 2020.

Mae’r prosiectau a gyllidwyd yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd ymholi ac maen nhw’n adlewyrchu diddordeb cynyddol ymysg arweinwyr yn y ffordd y gall diwylliant ymholi lywio gwelliannau mewn ysgolion a deilliannau dysgwyr. Mae enghreifftiau o’r prosiectau arloesol a ariennir drwy *Ymholi, arloesi, archwilio!* yn cynnwys gwella llefaredd drwy hunanwerthuso sy’n canolbwyntio ar ddisgyblion, a ysgogir gan arweinwyr canol, dan arweiniad Steve Jones, Pennaeth Cynorthwyl Ysgol Gatholig Joseff Sant a Chanolfan Chweched Dosbarth ym Mhort Talbot; a datblygu iaith meta i ddisgrifio dysgu, er mwyn cefnogi gwaith cynllunio ymlaen llaw a dysgu annibynnol dan arweiniad Anne Lloyd, Pennaeth Ysgol Gynradd Parkland yn Abertawe.

Bydd y prosiectau’n llywio canllawiau newydd yr Academi Arweinyddiaeth ar Arwain Ymholi, a gyhoeddir yn 2021, sydd â’r nod o roi adnoddau i arweinwyr ysgol i ddatblygu fel sefydliadau dysgu a rhoi ffyrdd iddynt o symud eu datblygiad proffesiynol yn ei flaen yng nghyd-destun safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Bydd *Ymholi arloesi, archwilio!* yn cyfrannu hefyd at y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi drwy ategu mentrau ymholi cenedlaethol eraill, yn cynnwys Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Canllawiau arwain dysgu proffesiynol

Yn ystod hydref 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru i’r Academi Arweinyddiaeth ddatblygu canllawiau cenedlaethol newydd ar Arwain Dysgu Proffesiynol. Bydd y canllawiau’n cael eu llywio gan ddadansoddiad newydd o’r polisi rhyngwladol a’r deunyddiau darllen academaidd ar ddysgu proffesiynol a gomisiynwyd gan yr Academi Arweinyddiaeth ym mis Ionawr 2020. Bydd yr adolygiad yn gosod y fframwaith ar gyfer y canllawiau hyn drwy nodi’r hyn sy’n nodweddu dysgu proffesiynol a arweinir yn dda. Ym mis Mawrth 2020, cynhaliwyd cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol ac fe gychwynwyd ar gyfres o astudiaethau achos mewn amrywiaeth o leoliadau ysgol. Byddant yn creu gwell dealltwriaeth o ddulliau cyfredol o arwain dysgu proffesiynol yng Nghymru ac yn creu enghreifftiau cyfoethog ac apelgar o arferion da i gefnogi arweinwyr yn eu dulliau eu hunain o ran dysgu proffesiynol. Mae grŵp golygyddol, yn cynnwys Cymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth a chynrychiolwyr sefydliadau haen canol eraill, wedi’i ffurfio a bwriedir cyhoeddi’r canllawiau ddiwedd 2020.



Datganiadau ariannol

Cyfrif Elw a Cholled ar gyfer diwedd y Flwyddyn 31 Mawrth 2020		
	2020 £	2019 £
Trosiant	1,400,000	390,700
Cost Gwerthiannau	(514,527)	(20,268)
Gwarged Gros	885,473	370,432
Treuliau Gweinyddol	(587,950)	(104,348)
Gwarged gweithredu	297,523	266,083

Deilliodd y canlyniadau uchod o weithrediadau parhaus. Nid oes gan y cwmni unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod ac eithrio'r canlyniadau uchod.

Mantolen ar 31 Mawrth 2020		
	2020 £	2019 £
Asedau Sefydlog		
Asedau Diriaethol	16,645	24,927
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr	493,908	236,219
Arian yn y Banc ac mewn Llaw	80,872	7,594
	574,780	243,813
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(27,819)	(2,657)
Asedau cyfredol Net	546,961	241,156
Asedau Net	563,606	266,083
Cyfalaf ac wrth gefn		
Cyfrif elw a cholled	563,606	266,083
Cyfanswm Ecwiti	563,606	266,083

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau arbennig sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y trefniadau cwmnïau bach yn Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd gan y Bwrdd ar 28fed Medi 2020 a llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

S. Davies

Dr S Davies (Cyfarwyddwr)

Y flwyddyn i ddod

CYMDEITHION

CARFAN 1 Gweithredu fel arweinwyr system y tu hwnt i'w lleoliad eu hunain

CARFAN 2 Lansio comisiwn

CARFAN 3 Sefydlu

CYMERADWYO

Symud tuag at alwadau agored i gymeradwyo er mwyn annog portfolio ehangach o ddarpariaeth a gymeradwywyd er mwyn bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru

LLES

Cymorth a chyfleoedd lles ar gael i bob arweinydd

Cyflwyno arolwg lles cenedlaethol i bob arweinydd ysgol er mwyn creu dull Cymru gyfan ar gyfer lles arweinwyr addysgol

ARLOESI

Darpariaeth a ariannwyd drwy'r llwybr arloesi yn cael ei roi gerbron i'w gymeradwyo

Prosiectau arloesi ar gyfer arweinyddiaeth cynllunio'r cwricwlwm yn cael eu hariannu drwy'r llwybr arloesi

CYFATHREBU

Mwy o amlygrwydd a phresenoldeb yn y sector

Lansio gwefan newydd

Ehangu capasiti digidol y sefydliad

Lansio cyfres Mewnwelediad

Cynnydd mewn capasiti yn y sefydliad

“
Cyfle gwych
i rannu meddyliau
a syniadau gydag
addysgwyr blaenllaw yn
ogystal ag arweinwyr
o'n system.



